

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar Cymru

EIN PARTNERIAID



Early Years
Wales
Blynyddoedd
Cynnar Cymru



3 SESIWN HYFFORDDI WEDI'U CWBLHAU

39 CYFRANOGWR WEDI'U HYFFORDDI

O GANLYNIAD I'R HYFFORDDIANT, MAE..

YN FWY ACTIF

88%

YN TEIMLO'N FWY HYDERUS

85%

YN BWRIADU PARHAU Â'R GWEITHGARWCH 96%

YN DWEUD Y BYDDEN NHW'N ARGYMELL
YR HYFFORDDIANT I ERAILL

100%



Mae wedi bod yn bleser i Flynyddoedd Cynnar Cymru weithio ar y cyd â Chwaraeon Rhondda Cynon Taf am ein bod ni'n rhannu'r un weledigaeth: sef pwysleisio pwysigrwydd symud y corff yn y blynyddoedd cynnar ac effaith hyn ar ddatblygiad yn ogystal â meithrin agweddau cadarnhaol tuag at symud y corff a chwaraeon. Mae'r Sesiynau 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' wedi gwella dealltwriaeth ymarferwyr ond hefyd wedi grymuso 36 hwylusydd hyfforddedig i ddefnyddio'r wybodaeth yma mewn modd effeithiol yng nghymunedau Rhondda Cynon Taf.

Mae ein mentrau ar y cyd wedi ein hysbrydoli, trwy ymgysylltu â theuluoedd lleol, rydyn ni wedi gweld yr effaith sylweddol y mae'r gweithgareddau symud wedi'i chael ar fabanod o oed ifanc. Mae'r ymdrechion yma'n allweddol er mwyn newid canfyddiadau a thynnu sylw at rôl allweddol gweithgarwch corfforol o ran datblygiad cynnar. Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi rhannu gwybodaeth, ond hefyd wedi sbarduno mudiad - a'r gobaith yw y bydd y mudiad yma'n parhau i fod o fudd i'n cymunedau ac yn parhau i ffynnu yn y dyfodol.

Roeddwn i wrth fy modd gyda'r sesiwn! Roedd yn ddiddorol iawn. Roedd yr hyfforddwyr yn wych, yn gyfeillgar ac yn groesawgar, ac yn llawn gwybodaeth. Roedden nhw wedi rhoi syniadau ardderchog i rieni a gwarcheidwaid a'u babanod. Adnodd ardderchog i'w ddefnyddio mewn lleoliad.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

ACTIF DATBLYGIAD YR YMENNYDD

DEALLTWRIAETH **CYFLEOEDD**
BYTH YN RHY GYNNAR

SYMUDIAD **HYFFORDDIANT** **CYFEILLGAR**
RHYNGWEITHIO **BABI**

GORWEDD AR Y BOL GWYBODAETH **GWEITHGAREDDAU**

PWYSIGRWYDD **DATBLYGIAD CORFFFOROL**

CYNORTHWYO RHINI
AWYRGYLCH GADARNHAOL